# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2017-2018

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **23 Mai 2018.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Peter Black | **Adran Etholiadol:** | Cwmbwrla |
|---|---|---|---|

| **Swydd Cyflog Uwch:** | |
|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Es i i gyfarfodydd PACT misol ac roeddwn i'n ymdrin â materion a godwyd gyda swyddogion a chyflwynais i gylchlythyr rheolaidd a ddosbarthwyd bob chwe wythnos i bob cartref yn y ward.
Ar y cyd â'm cydweithwyr ward, gwnaethom ymdrin â nifer o faterion. Roedd y rhain yn cynnwys:

1. Trefnais i dirlunio o gwmpas maes parcio Ysgol Bwrlais
2. Trefnais i i Grŵp Tai Coastal glirio'r sbwriel a daflwyd yn anghyfreithlon ar y lôn y tu ôl i Stryd Millwood.
3. Gweithiais gyda'r Tîm PATCH i atgyweirio nifer mawr o dyllau yn y ffordd
4. Trefnais i i Stryd Richard a rhan o Stryd Courtney gael eu gwneud yn llwybrau un ffordd
5. Gweithiais i gyda'r Is-adran Draenio i ymdrin â phroblemau gyda llifogydd ar Heol Eaton
6. Trefnais i i leoedd parcio i breswylwyr gael eu gosod ar Heol Manor, Stryd Iorwerth a Stryd Lynn
7. Gosodais i welyau blodau gwyllt ar Heol Sant Ioan, Heol Maesglas a Heol Pentregethin
8. Trefnais i glawdd pridd ar waelod Heol Ganol gael ei dirlunio.
9. Trefnais i sbwriel a daflwyd yn anghyfreithlon cael ei waredu o'r tu ôl i Dŷ Maesglas
10. Trefnais i i feinciau cymunedol ar Heol Llwyncethin gael eu paentio
11. Rhoddais i gymorth i'r tîm rheoli canolfannau cymunedol wrth adnewyddu ffensys a chafnau diffygiol
12. Trawsnewidiais gysgodfan bws ar Heol Eaton er mwyn ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol
13. Gweithiais i gyda'r tîm NEAT i docio a thacluso lonydd cefn, tir ger cylchfan Cwmbwrla a thir ar waelod Lôn Vicarage.
14. Gosodais i folardiau a rheiliau newydd ar gornel Stryd David a Chae Rowlands i atal cerbydau rhag mynd ar y palmant
15. Gosodais i olau stryd newydd ar Stryd Verig
16. Ymgyrchais i i ardaloedd sychu yn fflatiau Maesglas gael eu hailwynebu
17. Trefnais i i orchmynion dim aros gael eu gosod ar ffyrdd ger Ysgol Bwrlais ac Ysgol Brynhyfryd
18. Trefnais i i loriau newydd gael eu gosod mewn ardaloedd cymunedol mewn fflatiau yn 60-66 a 52-58 Cilgant Brondeg
19. Trefnais i i lôn rhwng Stryd Elgin a Thŷ Sant Ioan gael ei hailwynebu a threfnais i hefyd i ganllaw a goleuadau newydd gael eu gosod.

## Rhan 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr adran etholiadol.

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.
Gallwch weld penodiadau'r cynghorydd i gyrff allanol yma.

Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Bwrlais ac Ysgol Pentrehafod.
Cadeirydd Panel Perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a Phwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Fel rhan o'r cyngor, gweithiais i gyda fy nghydweithwyr i wrthwynebu'r cynnydd o 13% mewn cost prydau ysgol dros y tair blynedd nesaf, brwydro yn erbyn y tâl o £40 y dydd i'r rhai sy'n mynd i ganolfannau dydd, atal rhai clybiau ieuenctid lleol rhag cael eu cau a gwrthwynebu'r cynnydd o 5% mewn treth y cyngor. Cynigom ychwanegu £450,000 at y gyllideb atgyweirio ffyrdd ond pleidleisiwyd yn erbyn hyn yn y cyngor.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Gallwch weld hyfforddiant cynghorwyr yma.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Rwyf wedi bod yn cyfathrebu'n rheolaidd â'r Swyddfa Bost i geisio trefnu i gangen gael ei hailosod yn ardal Trefansel.

**Rhan 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,400

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma.
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 23/10/2018 |